Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol**

Rydym yn falch o ymateb i'r ymgynghoriad am Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol.


Ein rôl

Ein sylwadau

Sylwadau cloi


## Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rydym yn ymchwilio i gwynion a wneir gan aelodau'r cyhoedd sydd wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru.   Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rydym hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Yn ogystal, rydym yn ystyried cwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae gennym hefyd bŵer i bwyso am wella gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach trwy gynnal ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain a gosod safonau ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## Ein sylwadau

Rydym yn croesawu'n fras y cynigion i greu un awdurdod i gynnig gwasanaethau digidol, data a thechnoleg cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.

Safoni systemau digidol

Un o swyddogaethau y Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yw cefnogi gosod safonau data cyson ar draws systemau GIG Cymru ac yna defnyddio'r gwell ansawdd data i ysgogi gwelliant mewn gwasanaeth.

Ein dealltwriaeth ni yw y byddai'r awdurdod newydd yn gyfrifol am y cynnydd o ran prosiect 'Unwaith i Gymru', sy'n ymwneud â sefydlu system rheoli pryderon newydd i'w defnyddio gan gyrff iechyd y GIG.

Rydym wedi parhau i alw am gynnydd cyflym ar y prosiect Unwaith i Gymru. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff iechyd yn ein hawdurdodaeth a thrafod eu harferion ymdrin â chwynion. Yn seiliedig ar y trafodaethau hyn, parhawn i bryderu, mwy na chwe blynedd ar ôl i Keith Evans wneud ei argymhellion i fynd i'r afael â'r broblem, nad yw'r system bresennol (Datix) wedi'i sefydlu o hyd i ddarparu data defnyddiol ar dueddiadau cwynion. Gan y gall cyrff unigol gyflunio'r system i'w gofynion, nid oes fawr o le i gymharu eu perfformiad yn ystyrlon. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw pob cwyn sy'n cael eu cyflwyno i Fyrddau Iechyd yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i bwysleisio na ddylai pandemig Covid-19 oedi'r cynnydd o ran prosiect Unwaith i Gymru. Hyderwn y byddai'r awdurdod arfaethedig newydd yn bwrw ymlaen o ddifrif â'r gwaith hwn a gobeithiwn am ddeialog glòs a pharhaus â'n swyddfa ynghylch sut i sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder mewn arfer a data ymdrin â chwynion gan y GIG yng Nghymru.

Cofnodion cleifion a digideiddio

Swyddogaeth arall y NWIS yw cefnogi cyflwyno cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol cyfunedig. Nodwn hefyd mai un o'r prif resymau dros ddisodli NWIS â'r awdurdod arfaethedig newydd yw cynyddu amlygrwydd datrysiadau iechyd digidol.

Yn unol â hynny, byddwn yn croesawu trafodaeth â'r awdurdod newydd ynghylch unrhyw gynlluniau sy'n gysylltiedig â digideiddio cofnodion meddygol ac ynghylch egwyddorion ac ymarferoldeb cyrchu cofnodion o'r fath. Mae ein gwaith achos wedi dod ar draws achlysuron lle bu methiant gwasanaeth o ganlyniad i gofnodion anghyflawn neu aneglur, oedi wrth ddiweddaru cofnodion ac anawsterau wrth gyrchu gwybodaeth iechyd sydd wedi'u cadw mewn wardiau neu ysbytai eraill. Mae cofnodion gofal iechyd hefyd yn cynnig tystiolaeth hanfodol sy'n cefnogi ein hymchwiliadau i gwynion sy'n ymwneud â gofal claf. Felly, croesawir unrhyw gamau a gymerir i symleiddio'r broses o gyrchu a rhannu gwybodaeth o'r fath rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd.

Yn ychwanegol, hoffem gydnabod fod digideiddio yn cynnig potensial amlwg i hwyluso mynediad at y cofnodion hyn yn ystod ymchwiliad. Yn ôl ein profiad ni,

mae'r mynediad hwn wedi bod yn anodd ar brydiau gan fod y systemau presennol ar gyfer rhannu cofnodion yn cael eu defnyddio'n anghyson gan wahanol sefydliadau a chontractwyr y GIG, o ran prydlondeb a mynediad at wybodaeth benodol sy'n cael ei chadw.   Byddem yn croesawu'n fawr y gwelliannau a awgrymir yn y cynigion hyn.

**Sylwadau cloi**

I ddod i gasgliad, rydym yn croesawu'r cynigion i gynnig gwasanaethau digidol, data a thechnoleg cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. Rydym yn edrych ymlaen at weithio â'r awdurdod newydd i ysgogi gwelliant yn y gwasanaethau hyn.

Hyderaf y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau uchod, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombwdsmon.cymru).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Tachwedd 2020**

*******************************************************************************